



YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE CYLCHLYTHYR HYDREF 2018 OCTOBER NEWSLETTER

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Annwyl bawb

Mae'r wythnosau'n prysur fynd heibio - cofiwch am hanner tymor yr wythnos nesaf / *The weeks are passing by very quickly - remember that it is half term next week.*

Clybiau'r Urdd / Urdd Clubs

Cofiwch am glwb chwaraeon hanner tymor yr Urdd yn yr ysgol ddydd Llun 29^{ain} i ddydd Mercher yr 31^{ain}. Cysylltwch â catrinstone@urdd.org <<mailto:catrinstone@urdd.org>> neu 07976 003357 i gofrestru.

Remember that the Urdd will be running a sports club at the school over half term from Monday 29th to Wednesday 31st (8:30am – 3:30pm). Contact catrinstone@urdd.org neu 07976 003357 to register.

Apêl Madagascar / Madagasikara 2018-19 / Madagascar / Madagasikara Appeal

Mae Ysgol Gymraeg Pontardawe yn ymuno gydag Apêl Madagascar. Tybed oeddech chi'n gwybod mai enw ynys Madagascar mewn Malagaseg yw Madagasikara?

Mae'r llythyren 'i' yn yr enw yn cael ei hynganu'n ysgafn iawn, ac i bob pwrpas yn diflannu o'r gair. Ym 1818, hwyliodd cenhadon o Gymru i F Madagascar a sefydlu ysgolion a chenhadaeth Gristnogol. Ddau gan mlynedd yn ddiweddarach, mae pobl Madagascar a Chymru yn cofio hynny, ac yn dathlu gyda'i gilydd. Lanswyd Apêl Madagascar yn Aberaeron ar ddechrau mis Mehefin 2018. Lansir yr Apêl yn YGG Pontardawe mewn gwasanaeth Diolchgarwch gyda Mr Robin Samuel ar Ddydd Gwener, Hydref 26^{ain}. Pwrpas yr apêl yw codi arian at brosiectau ym Madagascar. Prosiectau megis cartref i blant amddifad, ysgol, darpariaeth feddygol a hefyd cynnig hyfforddiant ar sut i dyfu cnydau er mwyn cynnal teulu. Byddwn yn cydweithio gyda'r elusennau ym Madagascar, er mwyn sicrhau blwyddyn lwyddiannus o ymgyrchu. Mae'r apêl yn ymestyn o fis Mehefin 2018 hyd fis Mehefin 2019, ac erfyniwn am eich cefnogaeth iddi. Fe fydd gweithgareddau elusennol yr ysgol gydol 2018-19 yn cyfrannu at Apêl Madagascar. Gobeithiwn yn fawr y bydd siec deilwng gyda ni i'w gyflwyno i Mr Robin Samuel ar ddiwedd tymor yr Haf 2019.

Y Goeden Baobab

Mae'r baobab yn goeden o bwys ym Madagascar. Gelwir hi'n 'Goeden Bywyd', a gwarchodir hi'n ofalus.

Mabwysiadwyd y goeden fel logo ar gyfer dathliadau 2018 a'r apêl .



The Baobab Tree

The baobab is an important tree in Madagascar. It is called 'The Tree of Life', and it is carefully guarded. The tree was adopted as a logo for the 2018 celebrations and the appeal.

Ysgol Gymraeg Pontardawe is joining the Madagascar Appeal. Did you know Madagasikara is Madagascar's name in Malagaseg? The letter 'i' in the name is silent, and effectively disappears from the word. In 1818, missionaries from Wales sailed to Madagascar and set up Christian schools and mission. Decades later, the people of Madagascar and Wales remember the events, and celebrate with each other. The Madagascar Appeal was launched in Aberaeron in early June 2018. The Appeal at YGG Pontardawe will be launched in a Thanksgiving Service with Mr Robin Samuel on Friday, October 26th. The purpose of the appeal is to raise funds for projects in

Madagascar. Projects such as a home for orphans, a school, medical provision and also offering training on how to grow crops to support a family. We are working with the charities in Madagascar, to achieve a successful year of campaigning. The appeal extends from June 2018 to June 2019, and we ask for your support. The school's charitable activities throughout 2018-19 will contribute to the Madagascar Appeal. We hope that we will be able to present Mr Robin Samuel with a worthy cheque at the end of the Summer Term 2019.

Ethol Rhiant Lywodraethwyr / Election of Parent Governor

Mae yna un swydd wag i riant lywodraethwyr ar ein corff llywodraethu. Os hoffech fwy o fanylion am waith llywodraethwyr cliciwch ar y linc isod. Mae rhestr o'n llywodraethwyr presennol ni ar ein safwe. Mae croeso i chwi gysylltu â nhw i drafod gwaith llywodraethwyr. Petai diddordeb gennych mewn llenwi'r rôl, ynghlwm y mae ffurflenni enwebu. Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 3:30yp ar ddydd Gwener Tachwedd 16^{eg}. Gellir dychwelyd y ffurflenni trwy e-bost yr ysgol neu'r blwch enwebiadau wrth fynedfa'r gampfa. Petai mwy nag un enwebiad, yna fe fyddai angen cynnal etholiad. <https://www.npt.gov.uk/1752?lang=cy-gb>

There is one parent governor vacancy on our governing body. If you would like more information regarding the work of governors, please click on the link below. A list of our current governors is on our website. Please feel free to contact them to discuss the work of governors. Should you be interested in undertaking the role, the nomination forms are attached. The closing date for nominations is 3:30 pm on Friday November 16th. Nomination forms can be returned via the school email or in the nomination box at the gym entrance. Should there be more than one nomination, then an election will need be held. <https://www.npt.gov.uk/1752?lang=en-gb>

Gwasanaethau Dosbarth / Class Assemblies

Bydd ein cyfres o wasanaethau dosbarth yn parhau'r tymor nesaf. Mae croeso mawr i rieni ymuno â ni i gydaddoli. Cadwch lygad ar ein cylchlythyron a safwe'r ysgol am ddyddiadau pellach yn ystod tymor yr Haf.

Our program of class assemblies will continue next term. As always, we warmly invite parents to join us in worship. Keep an eye on our newsletters and the school website for further dates during the summer term.

Dydd Mawrth / *Tuesday* 22.01.19 - 9:00-9:30am – Dosbarth Mrs Richards (B3&4)
Dydd Mawrth / *Tuesday* 29.01.19 - 9:00-9:30am – Dosbarth Miss Alice Davies (B3)
Dydd Mawrth / *Tuesday* 19.02.19 - 9:00-9:30am – Dosbarth Miss Mair Davies (B4&5)
Dydd Mawrth / *Tuesday* 26.03.19 - 9:00-9:30am – Dosbarth Mrs Lewis Jones (B1)

Gwasanaethau Nadolig / Christmas Services

Blynyddoedd 3 i 6 - 1:30yp a 6:00yh Dydd Iau, Rhagfyr 13^{eg} yng Nghapel Tabernacl.

Years 3 to 6 - 1:30pm and 6:00pm Thursday, December 13^{eg} at Tabernacle Chapel.

Blynyddoedd Meithrin a Derbyn - 9:00yb Dydd Mercher, Rhagfyr 5^{ed} yn yr ysgol.

Nursery and Reception years - 9:00am Wednesday, December 5th at the school.

Blynyddoedd 1 a 2 - 1:30yp a 5:30yh Dydd Mercher, Rhagfyr 5^{ed} yn yr ysgol.

Years 1 and 2 - 1:30pm & 5:30pm Wednesday, December 5th at the school.

Hysbysir chwi o drefniadau tocynnau wedi hanner tymor / *Ticket information distributed after half term.*

Dathlu gwaith eich plant / Celebrating your children's work

Byddwch yn derbyn gwybodaeth am y nosweithiau rhieni a gynhelir dros bedair noson (Nos Llun 12^{fed} a'r 19^{eg} a Nos Fawrth 13^{eg} a'r 20^{fed} o Dachwedd) wedi hanner tymor. Cyn y nosweithiau, fel rhan o dathlu llwyddiannau eich plant rydym yn eich gwahodd i'r ysgol ar brynhawniau agored ar ddydd Mawrth Tachwedd 6^{ed} (Adran Iau) a phrynhawn Iau Tachwedd 8^{fed} (Cyfnod Sylfaen). Rydd gyfle i'r disgyblion rannu a thrafod eu gwaith gyda'u rhieni. Er mwyn sicrhau fod y prynhawn yn rhedeg yn llyfn, fyddoch chi'n cadarnhau'r amser y bwriadwch gyrraedd drwy'r linc isod.

Parents' evenings will be held over four evenings on Monday 12th and 19th and Tuesday 13th and 20th of November. You will receive further information after half term. Prior to the parents evenings, to celebrate your children's achievements you are invited to an open afternoon at the school on Tuesday, November 6th (Juniors) and Thursday November 8th (Foundation Phase). Pupils will be given the opportunity to share and discuss their work with their parents. To ensure that the afternoons run smoothly (that books and pupils are waiting for parents at the gym), could you confirm the time that you will be arriving by clicking the link below.

Prynhawn Agored Adran Iau / Junior Open Afternoon

Prynhawn Agored Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase Open Afternoon

Presenoldeb / Attendance

Roedd presenoldeb Medi yn 96.1%. Diolch o galon i chi. Erfyniwn arnoch i osgoi gwyliau yn ystod tymhorau ysgol a'n helpu fel ysgol i gynnal lefelau presenoldeb uchel ar hyd y flwyddyn. *Attendance for September was 96.1%. A big thank you to all of you. We appeal to you to try and avoid holidays during term time and support us as a school in maintaining high attendance levels throughout the year.*

Y Siarter Iaith / Welsh Language Charter

Mae'r ysgol yn gweithio tuag at wobwr aur y Siarter Iaith. Prif nod y Siarter yw ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau fel eu bod yn ymwybodol o gyd-destun hanesyddol, diwylliannol, cymunedol ac ieithyddol Cymru. Rydych chi, ein rhieni yn ganolog i hyn a gofynnwn i chi ein cefnogi yn y nod yma. Gobeithiwn eich cynnwys fwyfwy yn ein gwaith tuag at weithredu'r Siarter ac wrth atgyfnerthu manteision dwyieithrwydd gyda'r disgyblion. **Ynghlwm mae ymadroddion Cymraeg pellach i'w defnyddio gyda'ch plant - rhowch gynnig ar eu defnyddio!** Wedi hanner tymor, gofynnwch i'ch plant a chadwch lygad ar y blogiau am 'Destun Trafod yr Wythnos' ac ymestynnwch y drafodaeth i'r bwrdd bwyd adre!

*The school is working towards the gold award of the Language Charter. The main aim of the Charter is to inspire our children and young people to use the Welsh Language in all aspects of their lives and develop greater awareness of the historical, cultural, community and linguistic context of Wales. You, as parents are central to us achieving this aim. We hope to increasingly involve you in our work towards implementing the Charter and in reinforcing the benefits of bilingualism with the pupils. **Attached are further Welsh phrases to use with your children - give them a go!** After half term, ask your children and keep an eye on the class blogs for the 'Discussion Topic of the Week' and extend the discussion to the dinner table at home!*

Clwb Darllen / Reading Club

Cofiwch am y Clwb Darllen Cymraeg i Blant sy'n cael ei gynnal yn Nhŷ'r Gwrhyd bob nos Wener am 4:30pm. Mae'r Clwb am ddim ac mae croeso cynnes i bob plentyn. Bydd angen i rieni gofrestru eu plentyn/plant os hoffent i'w plant ymuno â'r Clwb eto eleni. Bydd llyfrau amrywiol ar gael yn y Clwb i'r plant eu darllen ac mae croeso iddyn nhw ddod â'u llyfrau eu hunain i'w darllen hefyd.

A reminder of the Children's Welsh Reading Club held at Tŷ'r Gwrhyd (Pontardawe Welsh Centre, Holly Street) every Friday at 4:30 pm. The Club is free and every child is warmly welcomed. Parents will need to register their child / children if they would like their children to join the Club again this year. There will be various books available at the Club for the children to read and they are also welcome to bring their own books to read.

Cyrsiau Pellach yn yr Iaith Gymraeg / Welsh Language Courses

Allwn ni godi ymwybyddiaeth at y cwrs 'Cymraeg Mewn Wythnos' fydd ar gael yn ystod wythnos hanner tymor ym Mhrifysgol Abertawe. Manylion drwy'r linc isod:

Could we raise awareness of the Learn Welsh "Welsh in a Week" courses that are taking place at Swansea University during half term. Information through the link below:

<https://learnwelsh.cymru/about-us/providers/swansea-university/>

If you would like any further details please contact Branwen Lloyd as soon as possible on (01792 29 5192 & b.h.lloyd@swansea.ac.uk)

dysgucymraeg.cymru / learnwelsh.cymru

Goruchwylwyr Cinio / Lunchtime Supervisors

Fe fyddwn eto yn hysbysebu'n fuan am oruchwylwyr amser cinio. Os wyddoch am unrhyw un a allai sbario awr amser cinio i ymgymryd â'r rôl, anogwch nhw i gysylltu â'r ysgol.

We will soon be advertising again for lunchtime supervisors. If you know of anyone (parents / grandparents) who could spare an hour at lunchtimes, encourage them to contact the school.

Clwb Brecwast / Breakfast Club

Mae'n clwb brecwast yn agor am 8:00yb tan 8.30. Cofiwch mai cyfrifoldeb rhieni yw diogelwch y disgyblion hyd agorir drysau'r clwb am 8:00yb. Rydym wedi gweld nifer yn cael eu gollwng mor gynnar â 7:50yb. Ni allwn chwaith dderbyn disgyblion i'r clwb ar ôl 8:20yb. Am wybodaeth bellach a chwestiynau cyffredinol cliciwch.

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/brecwast-am-ddim-mewn-ysgolion-cynradd.pdf>

Our breakfast club is open at 8.00 until 8.30am. Could you please remember that pupils must be supervised until the doors open at 8.00am. We have seen pupils being dropped off as early as 7:50am. We also, cannot accept pupils to the club after 8:20am. For further information and frequently asked questions click on the Welsh Government link below.

<https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/free-breakfast-in-primary-schools.pdf>

Cofion Gorau / *Best Wishes*



Ceri Emanuel
Pennaeth / *Headteacher*

Ychydig o ddyddiadau ar gyfer tymhorau sydd i ddod ----->
A few dates for the terms ahead



Ysgol Gymraeg Pontardawe Dyddiadur Hydref 2018 / *Autumn 2018 Diary*

Nos Iau, Hydref 25 ^{ain} <i>Thursday, October 25th</i>	Disgo Calan Gaeaf y CRAF <i>PTFA Halloween Disco</i>
Llun i Wener Hydref 22 ^{ain} i'r 26 ^{ain} <i>Monday to Friday October 22nd to 26th</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 3 â Margam <i>Year 3 Residential Visit to Margam</i>
Hanner Tymor – Cau ar ddydd Gwener, Hydref 27 ^{ain} ac yn ail agor i ddisgyblion ar ddydd Llun, Tachwedd 5 ^{ed} <i>Half Term – School closes on Friday, October 27th and will re-open for pupils on Monday, November 5th</i>	
Llun i Wener Tachwedd 5 ^{ed} i'r 9 ^{fed} <i>Monday to Friday November 5th to 9th</i>	Bloc Nofio B4 <i>Y4 Swimming Block</i>
Prynhawn Mawrth, Tachwedd 6 ^{ed} <i>Tuesday, November 6th</i>	Prynhawn dathlu gwaith disgyblion Adran Iau <i>Key stage 2 pupil achievement open afternoon</i>
Dydd Mercher, Tachwedd 7 ^{fed} <i>Wednesday, November 7th</i>	Gala'r Urdd <i>Urdd Gala</i>
Prynhawn Iau, Tachwedd 8 ^{fed} <i>Thursday, November 8th</i>	Prynhawn dathlu gwaith disgyblion Cyfnod Sylfaen <i>Foundation Phase pupil achievement open afternoon</i>
Llun i Wener Tachwedd 5 ^{ed} i'r 9 ^{fed} <i>Monday to Friday November 5th to 9th</i>	Bloc Nofio B3 <i>Y3 Swimming Block</i>
Bore Mawrth, Tachwedd 13 ^{eg} <i>Tuesday, November 13th</i>	Adran Iau - Pantomeim Branwen ym Mrynaman <i>Junior Department Branwen Pantomime at Brynamman</i>
Nos Llun 12 ^{fed} a'r 19 ^{eg} , Nos Fawrth 13 ^{eg} a'r 20 ^{fed} o Dachwedd <i>Monday 12th, 19th and Tuesday 13th and 20th of November</i>	Nosweithiau Rhieni <i>Parents Evenings</i>
Dydd Iau, Tachwedd 29 ^{ain} <i>Thursday, November 29th</i>	Ffair Nadolig y CRAF <i>PTFA Christmas Fair</i>
Dydd Mercher, Rhagfyr 5 ^{ed} <i>Wednesday, December 5th</i>	Gwasanaethau Nadolig Meithrin Derbyn a B1 a 2 <i>Nursery Reception and Year 1 and 2 Christmas Concerts</i>
Dydd Iau, Rhagfyr 6 ^{ed} <i>Thursday, December 6th</i>	Adran Derbyn, B1 a 2 yn ymweld â Dan yr Ogorf <i>Reception, Year 1 and 2 Department visiting Dan yr Ogorf</i>
Dydd Iau, Rhagfyr 13 ^{eg} <i>Thursday, December 13th</i>	Gwasanaethau Nadolig Adran Iau <i>Junior Department Christmas Services</i>
Dydd Mawrth, Rhagfyr 11 ^{eg} <i>Tuesday, December 11th</i>	Meithrin Derbyn yn ymweld â'r Cwtsh Chwarae <i>Nursery Reception visiting the Play Cwtsh</i>
Dydd Mercher, Rhagfyr 12 ^{fed} <i>Wednesday, December 12th</i>	Derbyn/B1 yn ymweld â'r Cwtsh Chwarae <i>Reception/Y1 visiting the Play Cwtsh</i>
Nadolig – Cau ar ddydd Gwener, Rhagfyr 21 ^{ain} ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ionawr 7 ^{fed} <i>Christmas – School closes on Friday, December 21st and will re-open on Monday, January 7th</i>	
Dydd Mawrth Ionawr 22 ^{ain} <i>Tuesday January 22nd</i>	Gwasanaeth B3a4 Mrs Richards <i>Class Assembly Y3&4 Mrs Richards</i>
Dydd Mawrth Ionawr 29 ^{ain} <i>Tuesday January 29th</i>	Gwasanaeth B3 Miss A Davies <i>Class Assembly Y3 Miss A Davies</i>
Dydd Gwener, Chwefror 8 ^{fed} <i>Friday, February 8th</i>	HMS <i>INSET</i>
Dydd Mawrth Chwefror 19 ^{eg} <i>Tuesday February 19th</i>	Gwasanaeth B4a5 Miss M Davies <i>Class Assembly Y4&5 Miss M Davies</i>
Dydd Mawrth, Mawrth 26 ^{ain} <i>Tuesday March 26th</i>	Gwasanaeth B1 Mrs Lewis Jones <i>Class Assembly – Y1 Mrs Lewis Jones</i>
Hanner Tymor y Gwanwyn 25^{ain} – 29^{ain} Chwefror / <i>Spring Half Term 25th – 29th February</i>	
Llun i Wener Mawrth 4 ^{ydd} i'r 8 ^{fed} <i>Monday to Friday March 4th to 8th</i>	Bloc Nofio B5 <i>Y5 Swimming Block</i>
Llun i Wener Mawrth 11 ^{eg} i'r 15 ^{fed} <i>Monday to Friday March 11th to 15th</i>	Bloc Nofio B6 <i>Y6 Swimming Block</i>
Pasg – Cau ar ddydd Gwener, Ebrill 12 ^{fed} ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 29 ^{ain} <i>Easter – School closes on Friday, April 12th and will re-open on Monday, April 29th</i>	

Dydd Iau Mai 23 ^{ain} <i>Thursday, May 23rd</i>	Mabolgampau'r Ysgol <i>School Sports Day</i>
Hanner Tymor y Sulgwyn 27^{ain} – 31^{ain} Mai / <i>Whitsun Half Term 27th – 31st May</i>	
Mercher i Wener Mehefin 5 ^{ed} i'r 7 ^{fed} 2019 <i>Wednesday to Friday June 5th to 7th 2019</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 5 â Llangrannog <i>Year 5 Residential Visit to Llangrannog</i>
Llun, i Wener Mehefin 3 ^{ydd} i'r 7 ^{fed} 2019 <i>Monday to Friday June 3th to 7th 2019</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 4 a Dan y Wenallt <i>Year 4 Residential Visit Danywenallt (2.5 days / pupil)</i>
Dydd Iau Mehefin 13 ^{eg} <i>Thursday, June 13th</i>	B6 - Diwrnod Pontio Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur <i>Y6 – Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur Transition Day</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 5 ^{ed} <i>Friday, July 5th</i>	Mabolgampau Clwstwr Ysgolion YG Ystalyfera <i>YG Ystalyfera Cluster Sports Day</i>
Dydd Iau, Gorffennaf 11 ^{eg} <i>Thursday, July 11th</i>	Cyngerdd Gadael Blwyddyn 6 (1:30yp) <i>Year 6 Leaver's Concert (1:30pm)</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 12 ^{fed} <i>Friday, July 12th</i>	Gig Siarter Iaith yn YG Ystalyfera Bro Dur <i>Language Charter Gig at YG Ystalyfera Bro Dur</i>
Dydd Llun, Gorffennaf 22 ^{ain} <i>Monday, July 22nd</i>	HMS <i>INSET</i>
Haf – Cau i ddisgyblion ar ddydd Gwener, Gorffennaf 19^{eg} ac yn ail agor i ddisgyblion ar ddydd Mawrth, Medi'r 3^{ydd} <i>Summer – School closes for pupils on Friday, July 19th and will re-open to pupils on Tuesday, September 3rd</i>	